**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 15-02(p4)**

**Dyddiad:** **31 Hydref 2002**
**Amser:** **09:00 i 12:30**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgor 1,Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**
**Teitl :** **GWELL REOLEIDDIO**

**Diben y Papur**

1. Hwyluso trafodaeth ar y Fenter Gwell Reoleiddio yng Nghymru

**Cefndir**

2. Mae busnesau yng Ngymru yn gweithredu'n bennaf o fewn fframwaith deddfwriaeth y DU, yn ogystal â swmp cynyddol o ddeddfwriaeth Ewropeaidd (mae tua hanner deddfau pwysicaf y DU â rhyw gysylltiad â deddfau Ewrop).
3. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i Well Reoleiddio. Mae hyn yn golygu gwneud deddfau pan fo angen yn unig, yn y ffordd fwyaf effeithlon a dadreoleiddio a symleiddio deddfwriaeth bresennol lle y bo'n bosibl.
4. Mae'r Llywodraeth wedi sefydlu Uned Effaith y Rheoliadau yn Swyddfa'r Cabinet i gydweithio ag Adrannau, asiantaethau a rheoleiddwyr Llywodraeth y DU i helpu i sicrhau bod rheoliadau yn deg ac effeithiol. Mae'r Uned yn:

- Hyrwyddo egwyddorion rheoleiddio da;
- Nodi risg ac yn asesu ffyrdd o fynd ati i'w drin;
- Cefnogi Tasglu Gwell Reoleiddio;
- Dileu deddfwriaeth ddiangen, hen ffasiwn neu feichus; a
- Gwella'r ffordd o asesu, llunio neu orfodi rheoliadau, gan ystyried yn benodol anghenion busnesau bach.

5. Hefyd, un o brif dasgau Gwasanaeth Busnesau Bach yr Adran Diwydiant a Masnach yw helpu i ysgafnhau'r baich rheoleiddio ar fusnesau bach.

6. Yng Nghymru, cafodd y mesurau canlynol eu cymryd i helpu i greu economi lle gall busnesau ffynnu

**Y Mesurau a Gymerwyd yng Nghymru Hyd Yma**

- **Concordatau:** Diben y rhain yw rheoli'r berthynas fanwl weinyddol sydd rhwng y Cynulliad a phob Adran, yn benodol mewn materion sydd o ddiddordeb cyffredin iddynt

a phan fydd gan y partïon swyddogaethau gweithredol sy'n gorgyffwrdd neu'n berthnasol i'w gilydd. Nid yw concordau - boed yn gynhwysfawr neu'n ddwyochrog - yn ofynnol yn ôl y gyfraith, ond maent yn ei gwneud yn bosibl ymdrin, mewn ffordd gydlynus ac ystyriol, â materion a allai, ymysg pethau eraill, effeithio ar fusnesau.

- **Canllawiau ar arfarniadau rheoliadol:** Mae Adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi arfarniadau rheoliadol ar gyfer is-ddeddfwriaeth gyffredinol. Diben yr arfarniad yw asesu'r costau a'r manteision yng Nghymru o gydymffrufio â'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Cafodd canllawiau newydd eu hanfon at bob aelod o staff ac yn ogystal, gofynnir i swyddogion ystyried effaith eu cynigion ar gystadleuaeth. Amgaeir copi er gwybodaeth yn yr Atodiad.

  Lle bydd y rheoliad newydd arfaethedig yn effeithio ar fusnesau, rhaid anfon copi o'r cyflwyniad a'r arfarniad rheoliadol i Uned Fusnes yr Adran Datblygu Economaidd a fydd yn monitro effaith rheoliadau'r cynulliad ar fusnesau yng Nghymru.

  Cyfrifoldeb yr Is-adran bolisi berthnasol yw cynnal Arfarniad Rheoliadol, a chaiff copïau o unrhyw arfarniadau eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad, er enghraifft, gweler www.cymru.gov.ukov.uk/subihealth/toc-e.htm#Reg.

- **Deddf Diwygio Rheoliadau:** Er na all Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud Gorchymyn Diwygio Rheoliadau ei hun, mae'r Ddeddf yn golygu bod yn rhaid cael caniatâd y Cynulliad Cenedlaethol i wneud unrhyw gynigion sy'n amrywio neu i ddileu swyddogaeth a drosglwyddwyd iddo. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddynodi hyn pan fydd y Gorchymyn ar fin cael ei wneud. Awgrymodd rhai Adrannau'r DU y gallai hyn arwain at newidiadau annisgwyl ac oedi ar y funud olaf.

  Byddant wedi ymgynghori â Llywodraeth y Cynulliad ar y manylion yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisi, ond mae'n dal yn bosibl, ar ôl i'r pwyllgorau adrodd ar gynnig, y gallai cyfarfod llawn y Cynulliad wrthod ei ganiatâd neu osod amodau. Pe bai hynny'n digwydd, byddai angen i Lywodraeth y DU ystyried yn ofalus a ddylai fwrw ymlaen i wneud y gorchymyn. Efallai y bydd angen ymgynghori ymhellach; neu efallai y bydd angen ail-gyflwyno'r Gorchymyn. Neu, efallai nad eir ymlaen i gyflwyno'r Gorchymyn neu ei gyfyngu i Loegr yn unig.

  Mae yna drefniant gweithdrefnol newydd sy'n golygu y bydd y Cynulliad yn rhoi ei ganiatâd cyn y caiff y gorchymyn ei osod ar gyfer craffu arno yn ystod yr ail gam.

- **Partneriaethau busnes lleol:** Nod y Partneriaethau busnes lleol yw sefydlu fforwm i drafod yr holl faterion sy'n ymwneud â rheoleiddio a gorfodi a darparu fframwaith i helpu busnesau i gydymffurfio â'r rheoliadau a orfodir arnynt yn lleol. Mae'r adolygiadau Gwerth Gorau wedi tynnu sylw at bartneriaethau fel ffordd bositif y gall awdurdodau lleol

drafod materion rheoliadol â busnesau. Fodd bynnag, dim ond 3 partneriaeth sy'n weithredol yng Nghymru, sef yng Nghaerdydd, Ceredigion a Sir Benfro.

- **Cynllun Gweithredu Diwygiadau Rheoliadol:** Ar ôl i Ddeddf Diwygio Rheoliadau 2001 ddod i rym, cynhyrchodd Llywodraeth y DU Gynllun Gweithredu Diwygiadau Rheoliadol. Mae'r cynllun yn un eang, yn ymdrin â newidiadau ar bob lefel, ar draws pob sector ac ym mhob dull a modd. Mae'r Cynllun yn dwyn ynghyd gynigion ar gyfer newid a fydd yn fuddiol i fusnesau; elusennau a'r sector gwirfoddol; y sector cyhoeddus ehangach, gan gynnwys awdurdodau lleol; a'r dinesydd cyffredin. Gallai'r cynllun wneud arbedion o £40 miliwn ar draws y DU. Dim ond un mesur penodol sy'n berthnasol i Gymru sydd ynddo, sef y cynnig i newid y ddeddf ar bleidleisio ar Agor ar y Sul.

**Y broses ymgynghori:**

7. Yn ôl Adran 115 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori â busnesau pan fydd ei bolisïau'n debygol o gael effaith ar swyddogaethau neu fuddiannau busnesau. Mae sefydlu Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru yn rhoi mwy o gyfle i'r Cynulliad ryngweithio â'r gymuned fusnes. Mae'r Cynulliad hefyd wedi sefydlu ffora ar gyfer y sectorau Moduron, Awyrofod ac Electroneg. Trwy gyfrwng y rhain, llwyddwyd i gyfnewid gwybodaeth â Llywodraeth y Cynulliad. Bwriedir sefydlu fforwm tebyg ar gyfer y sector ariannol.

**Camau i'w Cymryd yn y Dyfodol**

- Byddwn yn parhau i fesur effaith y rheoliadau newydd drwy'r broses Arfarnu Rheoliadol. Bydd Uned Fusnes yr Adran Datblygu Economaidd yn monitro pob rheoliad newydd sy'n effeithio ar fusnesau.
- Bydd swyddogion yn ailgynnal y broses Gorchymyn Diwygo Rheoliadau a gwneud argymhellion i'r EDM.
- Cyflwynir adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor ar orchmynion is-ddeddfwriaeth y Cynulliad sy'n effeithio ar fusnesau yng Nghymru
- Caiff y Pwyllgor ei hysbysu am yr effaith a gaiff Cynllun Gweithredu Diwygiadau Rheoliadol Llywodraeth y DU ar Gymru.
- Bydd swyddogion yn cydweithio â'r Gwasanaeth Busnesau Bach ar y prosiect Pecyn Adnoddau Cychwyn Busnes. Bydd y pecyn hwn yn atgyfnerthu ac yn symleiddio gwybodaeth reoliadol i bobl sy'n cychwyn busnesau mewn ffordd awdurdodol sy'n hawdd ei darllen a'i deall.
- Byddwn yn parhau i geisio dylanwadu ar y broses o ddatblygu polisi rheoliadol y DU i sicrhau ei bod yn ystyried buddiannau Cymru yn llawn.

**Camau i'r Pwyllgor eu Cymryd**

8. Gwahoddir y Pwyllgor i drafod y prosesau a amlinellir yn y papur ac i nodi'r camau yr

arfaethir eu cymryd yn y dyfodol.

**Enw Cyswllt**

9. Julie Hanley, Uned Fusnes yr Adran Datblygu Economaidd, ICM3

*Mae fersiwn Saesneg y papur hwn yn cynnys atodiadau. Yn anffodus nid yw'r atodiddau hyn ar gael yn Gymraeg.*